

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Panel Cyllid, 16/12/20

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr W.L.Davies (Cadeirydd), C.Larsen, W.Tudor Owen, S.Sage, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cyngorydd M.Sarnacki

3. Datgan Buddiant Personol

Dim.

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Awdit Ariannol

Nododd y Clerc:

- (1) Ei fod wedi holi'r Archwiliwr Allanol o ran pa bryd y bydd yr Archwiliad 2019/20 yn cael ei gwblhau. Roeddynt wedi cadarnhau y bydd hyn yn digwydd yn fuan.
- (2) O ran Awdits i'r dyfodol, bydd hyn yn digwydd mewn cylch o 3 blynedd, gydag un Awdit Llawn bob 3 blynedd, ac Awdit Sylfaenol yn y ddwy flynedd arall. Cafwyd cadarnhad y bydd y Cyngor Tref yn derbyn Awdit Llawn ar gyfer 2020/21, ac Awdit Sylfaenol yn 2021/22 a 2022/23.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

5.Penawdau Cyllidol

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar yr uchod.

Nodwyd:

- (1) Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar y 19eg o Dachwedd, cyflwynwyd adroddiad ar y penawdau cyllidol nad oedd gwariant ar eu cyfer yn ystod 2020/21 oherwydd yr argyfwng Covid-19.
- (2) Er mwyn gwneud hyn defnyddiwyd adroddiad "Cyfrifon Incwm a Gwariant a Chysoni Cyfrifon" a gyflwynwyd i'r cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 3ydd o Dachwedd. Dyddiad yr adroddiad oedd yr 20fed o Hydref.
- (3) Bod y Pwyllgor Cyllid wedi penderfynu fel a ganlyn yn ei gyfarfod ar y 19eg o Dachwedd:

"Penderfynwyd (unfrydol):

- (1) **Gofyn i'r Clerc drefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Cyllid tua canol Rhagfyr er mwyn trafod yr wybodaeth ariannol ddiweddaraf erbyn hynny.**
- (2) **Yn y cyfarfod bod angen derbyn yr wybodaeth o ran faint yn union o arian oedd ddim yn debygol o gael ei wario, er mwyn cael cynllun o beth i'w wneud efo'r arian, er enghraifft buddsoddi yn y gymuned, gwneud gwaith atgyweirio angenrheidiol ar Adeilad yr Institiwt.**
- (3) **Gofyn i'r Clerc wirio efo'r Cyfrifydd beth oedd hawliau'r Cyngor o ran symud arian nad oedd yn debygol o gael ei wario, er mwyn eu gwario ar benawdau eraill."**
- (4) O ran penderfyniad (3) uchod, bod Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn nodi:

"3.2 Ni cheir gwario unrhyw arian fydd yn fwy na'r swm sydd yn y gyllideb refeniw ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant. Yn ystod y flwyddyn dan sylw a chyda chydysyniad y Cyngor ar ôl llawn ystyried y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gellir symud symiau sydd ar gael a heb eu gwario i benawdau cyllideb eraill neu i gronfa wrth gefn benodedig yn ôl y galw."

Gan hynny mae cyfran o'r £50,000 wedi ei weithio ei mewn i Amcangyfrifon 2021/22.

- (5) Mai'r egwyddor oedd:
 - Ar gyfer 2020/21 gellid symud rhwng penawdau cyllidol er mwyn gwario rhywfaint o arian.
 - O ran y £50,000 ar gyfer y Grant Cefnogi Busnes bod hwnnw wedi ei ymgorffori yn Amcangyfrifon 2021/22.
- (6) Er mwyn llunio'r adroddiad defnyddiwyd adroddiad "Cyfrifon Incwm a Gwariant a Chysoni Cyfrifon" a gyflwynwyd i'r cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 1af o Ragfyr. Dyddiad yr adroddiad oedd y 23ain o Dachwedd.
- (7) Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor i'w weld fel Atodiad, gan ei fod yn rhoi'r wybodaeth ar y penawdau tanwario yn ogystal â'r rhai sydd wedi gor-wario.

(I) Cyfrifon Incwm a Gwariant a Chysoni Cyfrifon – Adroddiad dyddiedig yr 23ain o Dachwedd

- (1) Erbyn yr 23ain o Dachwedd roedd tua 65.3% o'r flwyddyn gyllidol wedi bod, a bod disgwyl felly i'r golofn "% o'r gyllideb" yn yr adroddiad adlewyrchu hynny.

- (2) Ar gyfer yr adroddiad hwn roedd y penawdau cyllidol oedd wedi gwario 60% neu lai o'r gyllideb erbyn y 23ain o Dachwedd yn cael eu cynnwys.
- (3) Bod incwm wedi dod i mewn i'r Cyngor o £50,000 o'r Grant Cefnogi Busnes, sydd heb ei bennu i unrhyw gyllideb benodol.
- (4) Bod gwariant wedi cynyddu dros gyfnod Covid-19, ond bod y gwariant wedi dod allan o benawdau cyllidol presennol. Golyga hyn bod rhai cyllidebau presennol ar "limit" eu gwariant gan y bydd gwariant pellach yn dod allan o'r rhain.
- (5) Dyma'r penawdau oedd efo llai na 60% o wariant arnynt hyd yn hyn :

Pennawd	Llinell Gyllidol	Cyllideb heb ei wario	% o wariant hyd yn hyn	Rheswm
Hysbysebu	1101	500	0	Dim hysbysebu am swyddi wedi bod
Costau Bancio	1107	278	20.5	Anodd rhagweld faint fydd yn cael ei wario
Offer Swyddfa	1112	3,705	53.7	Anodd rhagweld faint fydd yn cael ei wario
Offer swyddfa / Moderneiddio	1114	2000	0	Heb wario ond bydd gwariant yn digwydd ar offer TG newydd i'r swyddfa
Costau Dinesig	1116	4000	0	Llawer o bethau wedi eu canslo oherwydd Covid-19
Hyfforddi Gweithwyr	1118	1,570	21.5	
Tanysgrifiadau	1121	1,621	4.6	
Teleffon / Ffacs	1122	870	56.5	
Cost Cyfieithu	1124	945	5.2	
Gwefan	1126	1,448	27.6	
Cylch Trefi Caerog	1207	800	0	Penderfynwyd i beidio anfonebu am gyfraniad 19/20
Tân Gwylt	1209	5000	0	Noson Tân Gwylt 2020 wedi ei ganslo oherwydd Covid-19
Canolfan Cyngori	1211	2500	0	Dim cais wedi ei dderbyn ar gyfer 2020/21

Sgrîn Fawr	1220	2750	0	Sgrîn Fawr wedi ei ganslo eleni oherwydd Covid-19
Eisteddfod yr Urdd	1310	250	0	Eisteddfod yr Urdd wedi ei ganslo eleni oherwydd Covid-19
Eisteddfod Genedlaethol	1303	250	0	Wedi ei ganslo oherwydd Covid-19
Hybu'r Dref	1307	2,781	22.8	
Y Gofeb	1309	1,980	1	
Gŵyl Caernarfon	1313	3000	0	Wedi ei ganslo oherwydd Covid-19
Mynwent Llanbeblig	1315	1000	0	Un opsiwn (o bosib) fyddai cyfrannu tuag at y gwaith sy'n cymryd lle i glirio'r Fynwent
Gyfeillio	1316	500	0	Dim gweithgarwch
Gŵyl Fwyd	1319	4,000	0	£2,000 yn yr Atodiad wedi ei dalu i Porthi Pawb
Galeri	1320	1500	0	Heb dderbyn cais
Clwb Nofio	1321	200	0	Heb dderbyn cais
Gŵyl Arall	1324	1000	0	Wedi ei ganslo oherwydd Covid-19
Gwasanaethau Newydd	1325	23,346	41.6	
Sioe Amaethyddol	1326	600	0	Wedi ei ganslo oherwydd Covid-19
Grŵp Maesincla	1327	500	0	Heb dderbyn cais
Grŵp Carnifal Caernarfon	1328	1000	0	Carnifal wedi ei ganslo oherwydd Covid-19
Theatr Bara Caws	1332	100	0	Heb dderbyn cais
William Mathias	1334	200	0	Heb dderbyn cais
Parc Coed Helen	1337	17500	0	Parc Coed Helen heb drosglwyddo i'r Cyngor Tref eto. Bydd rhai costau'n bodoli yn sgîl y broses drosglwyddo yn

				ystod y flwyddyn ariannol hon.
Dodrefn ac Offer	1409	2000	0	Heb wario ond hyn ddim yn golygu na fydd gwariant yn digwydd

(6) Dyma'r penawdau sy'n debygol o gael eu gwario:

Pennawd	Llinell Gyllidol	Cyllideb heb ei wario	% o wariant hyd yn hyn	Rheswm
Yswiriant	1108	6500	0	Bydd hwn yn cael ei wario yn nechrau 2021
Lwfans Cynghorwyr	1109	5000	0	Bydd hwn yn cael ei wario ym Mawrth 2021
Etholiadau	1125	2000	0	Dim Etholiadau wedi eu cynnal
Goleuadau Nadolig	1201	18,226	59.5	Bydd hwn yn cael ei wario yn nechrau 2021
Baneri Gŵyl Dewi	1202	3000	0	Hwn heb ddod allan o gyllideb 2020/21 eto
Ffenestri Dolig	1203	450	0	Hwn heb ddod allan o gyllideb 2020/21 eto
Rhoddion Dolig yr Henoed	1204	400	0	Hwn heb ddod allan o gyllideb 2020/21 eto
Digwyddiadau Nadolig	1210	500	0	Hwn heb ddod allan o gyllideb 2020/21 eto
Dydd Gŵyl Dewi	1212	600	0	Hwn heb ddod allan o gyllideb 2020/21 eto
Pwyllgor Adloniant	1214	683	31.7	
Cystadleuaeth Gerddi	1215	165	58.8	
Cystadleuaeth Ffenestri Gŵyl Dewi	1218	300	0	Hwn heb ddod allan o gyllideb 2020/21 eto
Clwb Ieuencid	1301	12100	0	Ni fydd bil yn dod ar gyfer hwn yn 2020/21

				oherwydd y cyfnod clo
Llwybrau	1322	2000	0	Angen gwirio
Ysgolion Cynradd	1323	500	0	Angen gwirio
Clwb Bowlio Caernarfon	1329	200	0	Cais am gyllid bellach wedi ei dderbyn
Eglwys Noddfa	1331	1000	0	Angen gwirio
Gwres a Golau	1401	9984	28.7	Anodd rhagweld faint fydd yn cael ei wario
Glanhau	1402	4,756	20.7	Anodd rhagweld faint fydd yn cael ei wario
Dŵr	1406	250	44.3	Anodd rhagweld faint fydd yn cael ei wario

Nododd y Clerc ei fod wedi bod yn gwneud gwaith dadansoddiadol ar y ffigyrau yn dilyn anfon y rhaglen allan, oedd yn symleiddio'r tablau uchod. Roedd yr ymarfer wedi ystyried y penawdau y gellid symud i bennawd cyllidol arall, pa benawdau y gellid trosglwyddo arian iddyn nhw, a pa benawdau cyllidol oedd yn gorwario, er mwyn oedd angen trosglwyddo arian iddyn nhw o benawdau eraill.

Roedd tri dewis efo'r arian mad oedd am gael ei wario yn sgil Covid-19, sef ei drosglwyddo i bennawd arall a'i wario yn 2020/21, ei fod yn mynd i'r balansau neu ei fod yn cael ei glustnodi i gronfa wrth gefn benodedig.

Penderfynwyd (unfrydol):

- (1) Clustnodi £30,000 ar gyfer cronfa wrth gefn benodedig.
- (2) O ran y £30,000, gofyn i'r Clerc a'r Dirprwy Clerc drafod efo Cyngor Gwynedd os fyddai modd buddsoddi'r arian yng nghaeau swings y dref, a gofyn am asesiad o ran beth oedd ei angen.
- (3) Fel rhan o hyn dylid ystyried cael offer chwarae i blant anabl ym Mharc Coed Helen (fel sydd yn y parc yng Nghaeathro).
- (4) Ar gyfer 2020/21 awgrymir fod arian yn cael eu trosglwyddo i'r llinellau cyllidol canlynol:
 - £1,500 – Llinell Gyllidol 1114 – Offer Swyddfa / Moderneiddio – yn gwneud cyfanswm o £3,500
 - £2,000 – Llinell Gyllidol 1217 – Eraill - yn gwneud cyfanswm o £6,000
 - £7,000 – Llinell Gyllidol 1221 – Disaster A/C - yn gwneud cyfanswm o £8,000

- **£2,000 - Llinell Gyllidol 1308 – Cysgodfannau Bysiau - yn gwneud cyfanswm o £4,000**

(5) Gan na fydd Etholiadau yn cymryd lle yn ystod y flwyddyn gyllidol 2020/21, bod yr arian yma (£2,000) yn cael ei drosglwyddo tuag at Llinell Gyllidol 1308 – Cysgodfannau Bysiau, gan fod y cynllun i'w hatgyweirio ar waith. Bydd hyn yn gwneud cyfanswm o £6,000.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.50 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____